**Memorandwm Esboniadol i** Orchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 5) (Cymru) 2008

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.1.

## (i) Disgrifiad

Mae'r Gorchymyn yn amrywio Atodlen 5 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n rhestru anifeiliaid a warchodir o dan adran 9 o'r Ddeddf honno. Ychwanegwyd pedwar anifail at Atodlen 5. Rhoddir y morfarch trwyn cwta a'r morfarch pigog o dan warchodaeth gyffredinol a rhoddir y maelgi a'r falwen Rufeinig o dan warchodaeth gyfyngedig. Rhoddir y llygoden ddŵr, sydd ar hyn o bryd dan warchodaeth gyfyngedig, dan warchodaeth gyffredinol.

## (ii) Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Nid oes materion o ddiddordeb arbennig

## (iii)Y Cefndir Deddfwriaethol

Mae adran 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn creu amryw o dramgwyddau mewn perthynas â gweithredoedd sy'n peri niwed neu afles i unrhyw anifail gwyllt a restrir yn Atodlen 5 i'r ddeddf honno. Mae'r pŵer i amrywio Atodlen 5 (er mwyn ychwanegu unrhyw anifeiliaid at yr Atodlen honno, neu er mwyn tynnu unrhyw anifeiliaid oddi arni) i'w gael yn Adran 22(3) o'r Ddeddf honno. Trosglwyddwyd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(3) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 ac yna fe'i trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Mae'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## (iv) Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn gwarchod pob aderyn gwyllt, anifeiliaid penodol a phlanhigion penodol. Mae gwarchod anifeiliaid penodol a rhywogaethau penodol o blanhigion, drwy eu rhestru yn yr Atodlenni penodol i'r ddeddf honno, yn caniatáu iddynt gael eu hamddiffyn rhag bygythiadau penodol, er enghraifft cael eu gwerthu.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (adran 24) i Atodlenni 5 ac 8 gael eu hadolygu bob pum mlynedd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ("CBCN"). Cyflwynodd y CBCN ei adroddiad yn yr hydref 2002, a rhoddodd Llywodraeth y Du a Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyriaeth

ofalus iddo, cyn paratoi eu papur ymgynghori cyhoeddus, a ddyroddwyd yn 2005.

Yn sgil yr ymgynghoriad hwnnw, ac yng ngoleuni cyngor y CBCN, bydd y Gorchymyn yn rhoi ychwaneg o warchodaeth (yn achos y llygoden ddŵr) neu warchodaeth newydd o dan adran 9 o'r Ddeddf fel a ganlyn:

Y Llygoden Ddŵr (*Arvicola terrestris).* Cynyddir gwarchodaeth i warchodaeth lawn o dan adran 9 o ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, gan ychwanegu gwaharddiadau yn erbyn lladd bwriadol, cymryd neu anaf (a9(1)), meddiant (a9(2)), a gwerthiant (a9(5)(a) a (b)).

Bydd y Falwen Rufeinig, *Helix pomatia.* yn cael ei gwarchod yn erbyn lladd bwriadol, cymryd neu anaf (a9(1)), meddiant (a9(2)), a gwerthiant (a9(5)(a) a (b)).

Bydd morfeirch pigog a morfeirch trwyn cwta, *Hippocampus guttulatus a Hippocampus hippocampus.* yn cael gwarchodaeth lawn o dan adran 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Bydd y gwarchodaethau yn gwahardd lladd bwriadol, cymryd neu anaf (a9(1)), meddiant (a9(2)), difrod neu aflonyddwch mewn man cysgodi (a 9(4)(a), (b) ac (c)) a gwerthiant (a9(5)(a) a (b)).

Am y Maelgi *Squatina squatina* bydd lladd, cymryd ac anafu unrhyw rywogaeth wyllt (s9(1)) yn cael ei wahardd yng Nghymru ac o fewn 0-6 milltir forol o ddyfroedd tiriogaethol Cymru.

Bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith ar ddatblygiadau a ddichon ddigwydd mewn ardaloedd lle mae'n wybyddus bod y rhywogaethau'n byw, h.y. bydd rhaid i geisiadau cynllunio ystyried y posibilrwydd o bresenoldeb y rhywogaethau ac unrhyw fesurau digolledu y byddai angen eu sefydlu. Bydd canllawiau yn cael eu drafftio ar gyfer awdurdodau cynllunio at ddibenion asesu ceisiadau a rhoi caniatâd cynllunio i nodi unrhyw amodau sy'n ofynion yn y caniatâd.

**(v) Rhoi ar waith**

Bwriedir i'r offeryn hwn ddod i rym ar 12 Awst 2008.

Petai'r ddeddfwriaeth yn cael ei diddymu yna byddai'r rhywogaethau y nodwyd bod arnynt angen mwy o warchodaeth mewn perygl o gael eu niweidio.

Mae deddfwriaeth gyfochrog eisoes yn bod yn Lloegr. Bu yna oedi gyda rhoi'r ddeddfwriaeth yn ei lle yng Nghymru oherwydd newid staff yn y timau Polisi Cadwraeth Natur a Gwasanaethau Cyfreithiol.

**(vi) Ymgynghori**

Cafwyd ymgynghori yn sgil cynhyrchu adroddiad y CBCN gan Defra yng Nghymru a Lloegr yn 2005. Gwahoddodd Defra 224 o sefydliadau ac unigolion i wneud sylwadau, a chafwyd 62 o ymatebion ysgrifenedig. Roedd yr ymatebion ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd drwy Ganolfan Adnodd Gwybodaeth Defra. Ni chafwyd ymgynghoriad pellach ar yr OS gan na fu newid ar y cynigion yn sgil yr ymgynghoriad.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

a) **Opsiynau (ar gyfer cyflawni nôd y polisi fel y'i gosodir ym mharagraff (iv) uchod)** –

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad bod y CBCN yn adolygu cynnwys Atodlenni 5 ac 8 bob pum mlynedd. Argymhellodd yr adolygiad hwnnw y dylid rhoi gwarchodaeth bellach i amryw o anifeiliaid o dan Atodlen 5 o'r Ddeddf. Yng ngoleuni'r adolygiad hwnnw, ac yn sgil ymgynghori, penderfynwyd darparu'r warchodaeth honno. Mae angen y Gorchymyn hwn i wneud hynny.

Ni ddynodwyd unrhyw ddiwygiadau i Atodlen 8.

b) **Buddion** –

Y buddion pennaf o'r ddeddfwriaeth hon fydd y warchodaeth ychwanegol a roddir i'r rhywogaethau.

Bydd rhoi mwy o warchodaeth i'r llygoden ddŵr yn creu sefyllfa gyfreithiol llawer symlach gan ei gwneud yn fwy dealladwy i'r rheini y dichon eu gweithgareddau effeithio ar boblogaethau o lygod dŵr.

Bydd rhestru'r Morfarch Trwyn Cwta a'r Morfarch Pigog yn atal y posibilrwydd o golli'r rhywogaethau hyn o arfordir Ynys Prydain cyn bod dealltwriaeth lwyr o'u bioleg a'i hecoleg. Bydd eu mannau cysgodi neu warchod hefyd yn cael eu rhoi dan warchodaeth a bydd hyn hefyd o fudd i rywogaethau eraill o bysgod sy'n defnyddio'r un cynefinoedd a thrwy hynny bydd cnwd pysgod amryw o rywogaeth yn cynyddu.

Bydd rhestru'r Maelgi yn atal colli'r rhywogaeth hon o arfordir Ynys Prydain drwy ei rhoi dan fwy o warchodaeth.

Bydd rhestru'r Falwen Rufeinig yn cryfhau'r warchodaeth dros y rhywogaeth drwy helpu i roi atalfa ar gasglu tymhorol a masnachol fel ei gilydd sy'n peri bod poblogaethau gwyllt y DU fwy-fwy dan fygythiad.

(c) **Costau**

Mae'r costau nad ydynt yn ariannol sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud yn bennaf â'r warchodaeth dros lygod dŵr. a'r effaith ganlyniadol y dichon y warchodaeth honno ei chael ar weithgareddau sy'n digwydd gerllaw poblogaethau o lygod dŵr. Mae canllawiau yn cael eu drafftio ar hyn o bryd ar oblygiadau'r ddeddfwriaeth ac yn benodol ar y gofynion y mae angen i awdurdodau caniatáu eu hystyried ar gyfer unrhyw weithgareddau y dichon y bydd arnynt angen caniatadau, e.e. caniatadau cynllunio.

**(ch) Ymgynghori**

Cafwyd ymgynghori yn sgil cynhyrchu adroddiad y CBCN gan Defra yng Nghymru a Lloegr yn 2005. Ni fu ymgynghori pellach ar yr OS gan na fu newid ar y cynigion yn sgil yr ymgynghoriad. Gweler paragraff vi am fanylion pellach.

**(d) Crynodeb**

Mae'r Gorchymyn yn cael ei gynnig er mwyn delio â'r gofynion y manylir arnynt uchod. Y buddion fydd rhoi anifeiliaid penodol o dan warchodaeth ychwanegol a rhoi eglurder ar y gweithgareddau y gellir ymgymryd â hwy. Nid oes costau ariannol i'r cynigion ond bydd angen i ddatblygwyr a thirfeddianwyr ystyried presenoldeb posibl y rhywogaethau dan warchodaeth a sut y gallai eu gweithgareddau hwy effeithio ar y rhywogaethau hynny.